Thomas Cook 1808–1892

Sefydlydd cwmni teithio

Ganwyd Thomas Cook ar 22 Tachwedd 1808 yn Melbourne, Swydd Derby. Yr oedd o deulu cyffredin, ei dad John yn labrwr a'i fam Elizabeth yn ferch i weinidog gyda'r Bedyddwyr. Bu farw ei dad pan oedd yn bedair oed ac ailbriodod ei fam. Pan oedd yn ddeg oed fe orffennodd yn yr ysgol a mynd i helpu garddwyr ar stad yr Arglwydd Melbourne. Cafodd beth addysg ran amser yn Ysgol Sul y Methodistiaid, ond pan oedd yn bedair ar ddeg oed aeth yn brentis saer celfi gyda'i ewythr, John Pegg, a oedd yn Gristion bedyddiedig o argyhoeddiad. Daeth yn athro Ysgol Sul a phan oedd yn un ar bymtheg oed cafodd fedydd trochiad.

Ychydig cyn ei ben blwydd yn ugain oed rhoddodd y gorau i'w brentisiaeth a mynd yn bregethwr teithiol ar gyflog o £36 y flwyddyn. Ei waith oedd cyhoeddi'r Efengyl trwy bregethu, dosbarthu tractiau a chychwyn Ysgolion Sul trwy siroedd de canolbarth Lloegr. Priodod ferch o'r enw Marianne Mason ac aethant i fyw yn Market Harborough, Caerlŷr (Leicester), lle y sefydlodd Cook weithdy turnio coed gan nad oedd y Bedyddwyr yn gallu talu cyflog iddo fel pregethwr. Trwy gydol ei fywyd roedd yn Gristion ymroddedig ac yn Fedyddiwr o argyhoeddiad oedd yn llawn dyngarwch tuag at y rhai hynny oedd mewn angen. Yn y 1830au fe'i hargyhoeddwyd o ddadleuon y Mudiad Dirwestol fod alcohol yn cyfrannu tuag at drueni a thlodi pobl ac fe arwyddodd ardystiad dirwestol (y 'pledge') ym 1836. Gwaharddodd ei weithwyr rhag yfed alcohol ac anogai weithgareddau llwyrymataliol.

Ym 1840 cychwynnodd y *Children's Temperance Magazine*. Ond ym 1841 y dechreuodd ar weithgaredd a fu'n rhan allweddol o'i fywyd weddill ei oes. Trefnodd daith trên i 500 o ddirwestwyr o Gaerlŷr i Loughborough am swllt yr un. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn symudodd i fyw i Gaerlŷr ac yno sefydlodd fusnes llyfrwerthu ac argraffu a arbenigai mewn llenyddiaeth ddirwestol. Agorodd westai dirwestol yn Derby a Chaerlŷr a pharhaodd i drefnu teithiau. Y daith gyntaf a wnaeth elw iddo oedd honno i Lerpwl, Caernarfon a'r Wyddfa. Argraffodd lawlyfr

i'r teithwyr; hwn oedd y cyntaf o'i fath oedd yn rhagflaenydd i'r llyfrau gwyliau cyfoes. Oherwydd y llwyddiant ehangodd y ddarpariaeth trwy drefnu taith i 500 i'r Alban. Er bod y daith hon wedi bod yn fethiant affwysol ac yn ddrwg i'w fusnes fe oroesodd gan sefydlu asiantaeth deithio. Wrth i'r rhwydwaith rheilffordd ehangu yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg fe dyfodd y busnes. Ym 1851 trefnodd Cook i 165,000 o bobl ymweld â'r Arddangosfa Fawr yn Llundain. Yn ogystal â hynny trefnodd ddegau o deithiau eraill i ddinasoedd ac ardaloedd hardd yn yr Alban, Iwerddon, Lloegr a Chymru. Gyda'r elw a wnâi, rhoddodd y gorau i'r argraffwasg gan gyfrannu'n hael i'r tlodion a chynorthwyo i adeiladu'r Neuadd Ddirwestol yng Nghaerlŷr.

Yn awr trodd ei olygon tua'r cyfandir gan drefnu teithiau poblogaidd i Ewrop. Erbyn 1863 roedd wedi trefnu bod 2,000 wedi mynd i Baris a 500 i'r Swistir. Gyda'r teithiau hyn roedd yn trefnu croesi'r sianel, teithio ar drên a llety mewn gwestai o'r safon uchaf. Daeth y teithiau hyn yn eithriadol boblogaidd ac ychwanegodd deithiau i'r Eidal, America, yr Aifft ac Israel. Ym 1872–3 trefnodd y daith gyntaf erioed – hyd y gwyddom – i dwristiaid o amgylch y byd. Credai y byddai'r teithiau hyn yn fodd i greu heddwch byd-eang, wrth i bobl ddod i adnabod ei gilydd yn well. Ym 1878 fe ymddeolodd ac fe gymerodd ei fab John Mason reolaeth o'r busnes. Bu Thomas Cook farw ar 18 Gorffennaf 1892 yn ei gartref Thorncroft, Caerlŷr.